# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 25 Medi 2019

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5845

# 229

## Enwebiadau ar gyfer cadeirydd pwyllgor

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gwahoddwyd y Llywydd enwebiadau ar gyfer cadeirydd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad. Enwebwyd Dawn Bowden gan Huw Irranca-Davies. Eiliwyd gan Vikki Howells. Gan nad oedd dim enwebiadau eraill, etholwyd Dawn Bowden

## 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg

Dechreuodd yr eitem am 13.31

Gofynnwyd cwestiynau 1- 5 a 7 - 9. Tynnwyd cwestiwn 6 yn ôl. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Dechreuodd yr eitem am 14.19

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 3 Cwestiynau Amserol

Dechreuodd yr eitem am 15.10

Gofyn i Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

**Bethan Sayed (Gorllewin De Cymru):** Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i helpu'r rhai sydd wedi cael eu heffeithio gan Thomas Cook yn cau?

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

Dechreuodd yr eitem am 15.24

Gwnaeth Angela Burns ddatganiad ar Ddiwrnod Fferyllwyr y Byd (25 Medi)

## 5 Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau: Hawliau Pleidleisio i Garcharorion

Dechreuodd yr eitem am 15.26

**NDM7139** John Griffiths (Dwyrain Casnewydd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 'Hawliau Pleidleisio i Garcharorion', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Mehefin 2019.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 6 Dadl y Pwyllgor Cyllid ar flaenoriaethau gwariant y llywodraeth

Dechreuodd yr eitem am 16.39

**NDM7140** Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi'r sylwadau a wnaed gan gyfranogwyr yn nigwyddiad rhanddeiliaid y Pwyllgor Cyllid yn Aberystwyth ynghylch blaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru ar gyfer cyllideb 2020-21 sydd ar y gweill.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 7 Dadl y Blaid Brexit - Y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd

Dechreuodd yr eitem am 17.38

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a’r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

NDM7141 Caroline Jones (Gorllewin De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cefnogi aelodaeth Cymru o Deyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon a'i pharhad amhenodol.

2. Yn nodi bod Cymru, fel y Deyrnas Unedig yn ei chyfanrwydd, wedi pleidleisio i adael yr Undeb Ewropeaidd.

3. Yn cefnogi datganoli pellach mewn meysydd penodol a fyddai o fudd i Gymru a lle mae rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig yn elwa o ddatganoli o'r fath, fel toll teithwyr rheilffyrdd ac awyr.

4. Yn nodi'r rhan a fu gan yr Undeb Ewropeaidd yn y gorffennol o dan erthyglau 154 i 156 o Gytuniad Rhufain mewn perthynas â rhwydweithiau traws-Ewropeaidd, gan gynnwys yr M4 a'r A55.

5. Yn galw ar Lywodraeth y DU i gefnogi gwelliannau i'r A55 a chyflenwi ffordd liniaru'r M4 drwy gronfa ffyniant a rennir y DU er budd Cymru a'r DU gyfan.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 4 | 0 | 42 | 46 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Rebecca Evans (Gwyr)**

Ychwanegu ar ddiwedd pwynt 1 “ond yn credu bod angen i’r ffordd y cynhelir y cysylltiadau rhynglywodraethol rhwng y cenhedloedd datganoledig a Llywodraeth y DU gael ei diwygio mewn modd radical”.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 26 | 8 | 13 | 47 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 – Rebecca Evans (Gwyr)**

Ychwanegu ar ddiwedd pwynt 2 “ond yn credu, yn sgil profiad y tair blynedd diwethaf, na ellir sicrhau dyfodol mwy disglair i Gymru heb i’r DU aros yn yr UE”.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 32 | 0 | 15 | 47 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 – Rebecca Evans (Gwyr)**

Ym mhwynt 3, yn lle “fel toll”, rhoi “fel plismona a chyfiawnder a tholl”.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 26 | 6 | 15 | 47 |

**Derbyniwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 – Rebecca Evans (Gwyr)**

Dileu pwynt 5 a rhoi yn ei le:

Yn galw ar Lywodraeth y DU:

a) i gryfhau ei hymrwymiad i fuddsoddi mewn seilwaith yng Nghymru, er enghraifft drwy drydaneiddio’r prif linellau rheilffordd yn y De a’r Gogledd a buddsoddi mewn ynni llanw yng Nghymru, sy’n gyfrifoldeb iddi;

b) i ddarparu cyllid llawn yn lle’r cyllid Ewropeaidd y bydd Cymru’n ei golli os bydd y DU yn ymadael â’r UE, a hynny heb unrhyw ymyrraeth gan Lywodraeth y DU o ran y ffordd orau o’i ddefnyddio.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 31 | 0 | 15 | 46 |

**Derbyniwyd gwelliant 4.**

**Gan fod gwelliant 4 wedi'i dderbyn, cafodd gwelliant 5 ei ddad-ddethol**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd:**

**NDM7141** Caroline Jones (Gorllewin De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cefnogi aelodaeth Cymru o Deyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon a'i pharhad amhenodol ond yn credu bod angen i'r ffordd y cynhelir y cysylltiadau rhynglywodraethol rhwng y cenhedloedd datganoledig a Llywodraeth y DU gael ei diwygio mewn modd radical.

2. Yn nodi bod Cymru, fel y Deyrnas Unedig yn ei chyfanrwydd, wedi pleidleisio i adael yr Undeb Ewropeaidd ond yn credu, yn sgil profiad y tair blynedd diwethaf, na ellir sicrhau dyfodol mwy disglair i Gymru heb i'r DU aros yn yr UE.

3. Yn cefnogi datganoli pellach mewn meysydd penodol a fyddai o fudd i Gymru a lle mae rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig yn elwa o ddatganoli o'r fath, fel toll fel plismona a chyfiawnder a tholl teithwyr rheilffyrdd ac awyr.

4. Yn nodi'r rhan a fu gan yr Undeb Ewropeaidd yn y gorffennol o dan erthyglau 154 i 156 o Gytuniad Rhufain mewn perthynas â rhwydweithiau traws-Ewropeaidd, gan gynnwys yr M4 a'r A55.

5. Yn galw ar Lywodraeth y DU:

a) i gryfhau ei hymrwymiad i fuddsoddi mewn seilwaith yng Nghymru, er enghraifft drwy drydaneiddio'r prif linellau rheilffordd yn y De a'r Gogledd a buddsoddi mewn ynni llanw yng Nghymru, sy'n gyfrifoldeb iddi;

b) i ddarparu cyllid llawn yn lle'r cyllid Ewropeaidd y bydd Cymru'n ei golli os bydd y DU yn ymadael â'r UE, a hynny heb unrhyw ymyrraeth gan Lywodraeth y DU o ran y ffordd orau o'i ddefnyddio.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 25 | 0 | 22 | 47 |

**Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.**

## 8 Cyfnod pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 18.24

## 9 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 18.27

**NDM7142** Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd)

Agwedd ysgol gyfan Cymru: cynorthwyo pob plentyn i ffynnu, dysgu a llwyddo mewn ysgolion.

Daeth y cyfarfod i ben am 18.52

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 1 Hydref 2019**